Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.13 Ariannu lleol - Conwy

Lluniwyd y daflen hon i roi gwybodaeth am grantiau bach, sydd ar gael i grwpiau a mudiadau bach o fewn y sector gwirfoddol yng Nghonwy. Bwriedir y cofnodion ar y daflen fel canllaw cyffredinol, a bydd y cysylltiadau a roddir yn medru darparu gwybodaeth fwy manwl i chi.

Dylech ddarllen y daflen hon ynghyd â **7.4.1 Grantiau Bach** sy'n manylu ar y grantiau bach sydd ar gael ar sail ranbarthol neu Gymru gyfan.

Cynllun Grantiau Cyfalaf Bach CGGC 2011 – 2012

Mae'r Cynllun Grantiau Cyfalaf Bach CGGC yn cael ariennir gan Raglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol y Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n rhoi cymorth i fudiadau cymunedol a gwirfoddol i ddarparu cyfleusterau neu weithredu gweithgareddau a fydd yn hyrwyddo adfywiad cymunedau.

Mae'r cynllun grantiau yn agored i grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol neu elusennau ym Mwrdeistref Siriol Conwy sydd â throsiant o lai na £150,000 y flwyddyn, ar yr amod:

- Bod ganddynt gyfansoddiad neu set o reolau a lofnodwyd neu a "fabwysiadwyd"
- Bod ganddynt bolisi cyfleoedd cyfartal
- Bod ganddynt gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu
- Bod ganddynt gyfrifon blynyddol (wedi'u harchwilio neu'n llofnodi gan berson uwch yn grŵp).

Un grant a ganiateir mewn cyfnod a dair blynedd.

Y drefn fydd i haeddiant ceisiadau gael eu hasesu gan swyddogion CGGC cyn eu cyflwyno i'r panel. Y Panel Grantiau fydd yn ystyried pob cais a gyflwynir iddynt.

Uchafswm y grant y gellir gwneud cais amdano yw £5,000

Cyswllt:
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
8 Rhodfa Riviere, Bae Colwyn, LL29 7DP
Ffôn: 01492 534091
soniakendall@cvsc.org.uk
www.cvsc.org.uk

Cist Gymunedol Clwyd

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych [CGGSDd] yn gweinyddu cynllun grantiau a benthyciadau “Cist Gymunedol Clwyd” ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol sydd yn gweithredu o fewn y cyn Sir Clwyd.

Mae grantiau hyd at £250 a benthyciadau hyd at £2,000 ar gael i fudiadau a grwpiau [sydd yn elusennau cofrestredig neu’n ymgymryd ag amcanion elusennol] sydd yn gweithio gyda:

- Pobl hŷn
- Pobl gydag anableddau corfforol
- Pobl gydag anableddau dysgu
- Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Plant o dan anfantais
- Adnoddau chwarae a hamdden i blant
- Pobl ddi-waith sydd yn ymgymryd â gwaith gwirfoddol
- Cynnal a chadw neuaddau pentref
- Gweithgareddau amgylcheddol
- Gweithgareddau diwylliannol

Grantiau
Mae grantiau o hyd at £250 ar gael i brynu eitemau o offer ac/neu gostau rhedeg.
Benthyciadau
Mae benthyciadau o hyd at £2,000 ar gael.

Cyswllt:
Cist Gymunedol Clwyd,
d/o Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd),
Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1AF
Ffôn: 01824 702441,
office@dvsc.co.uk
www.dvsc.co.uk

Cronfa Deddfau Eglwysi Cymru

Mae'r cynllun grant yma ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithredu yng Nghonwy. Mae'n darparu arian i fudiadau sydd ag amcanion elusennol, ar gyfer gwariant cyfalaf yn unig. Mae'r gronfa'n creu tua £10,000 y flwyddyn i'w ddyrannu ac felly, nid oes modd rhoi taliadau mawr. Felly, mae'r grantiau fel arfer yn amrywio rhwng £50 a £2,000, ond nid dyma'r swm bob tro.

Beth ellir ei ariannu?

- Hyrwyddo addysg (DIM FFIOEDD DYSGU);

- Hyrwyddo gwybodaeth a gwerthfawrogi'r celfyddydau a llenyddiaeth yng Nghymru;
- Cymorth Tlodi;
- Hyrwyddo crefydd;
- Cymorth Salwch;
- Pobl Hŷn;
- Cymdeithasol a Hamdden;
- Materion esthetig, pensaernïol, hanesyddol a gwyddonol;
- Ymchwil a thriniaeth feddygol a chymdeithasol etc;
- Gwasanaeth Prawf;
- Pobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall;
- Argyfyngau neu drychinebau.

Cyswllt:
Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy LL32 8DU
Ffôn: 01492 576201
welshchurchactsfund@conwy.gov.uk

Cyngor Chwaraeon Cymru -Grant Cist Gymunedol

Mae'r gist Gymunedol yn fenter Chwaraeon Cymru sy'n darparu cronfa arian ar gyfer chwaraeon cymunedol a gweithgareddau corfforol. Dan y canllawiau newydd, cynyddwyd uchafswm y grant i £1,500,

Gellir defnyddio'r grant i gefnogi pethau eraill sy'n:

- Annog mwy o bobl i fod yn fywiog
- Codi safonau gweithgareddau presennol
- Annog cyfranogiad mewn chwaraeon i weithgareddau ymarferol
- Annog cyfranogiad drwy oes mewn gweithgaredd cynaliadwy
- Annog partneriaethau gydag asiantaethau eraill

Cyswllt:
Cist Gymunedol,
GDC, Gwasanaethau Hamdden
Adeilad y Llyfrgell
Stryd Mostyn
Llandudno
Ffôn 01492 575556
Tim.ballam@conwy.gov.uk
www.conwy.gov.uk
Neu Chwaraeon Cymru
Ffôn: 0845 045 0904
www.sportswales.org.uk

WREN (Ailgylchu Gwastraff Amgylcheddol Cyf.)

Mae WREN yn rhoi cyllid i brosiectau sy'n creu, gwella neu'n gofalu am gyfleusterau cymunedol. Mae'n gweithredu dan y Gronfa Cymunedau Tirlenwi.

Cynllun Grantiau Bychain WREN
£2,000 - £15,000
Ffrwd gyllido newydd yw hon sy'n rhoi cyllid i brosiectau bychain. Ni ddylai cyfanswm cost y prosiect fod yn fwy na £50,000

Cynllun Prif Grant WREN
Mae rhwng £15,001 a £50,000 ar gael ar gyfer y ddarpariaeth, cynhaliaeth neu wellhad o barc cyhoeddus neu unrhyw amwynderau gyhoeddus eraill o fewn cyffiniau safle tirlenwi.

Caiff bob cais i WREN eu harolygu gan Banel Cynghori o wirfoddolwyr lleol. Maent yn gwybod beth yw anghenion a gofynion eich ardal chi a'r hyn sydd ei hangen ar raddfa ranbarthol.
Rhaid i bob prosiect gael ei leoli mewn ardal y mae WREN yn gweithredu ynddi, a bod ar gael i'r cyhoedd – ymwelwch â'n gwefan am gyngor neu cysylltwch â staff WREN.

Cysylltwch:

Meleri Jones,
Ffôn : 01248 674907
meleri.jones@wren.org.uk
www.wren.org.uk

Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru- Y Gronfa Gymunedol

Mae gan Ardal Adfywio Gogledd Cymru gyllid i gefnogi prosiectau cyfalaf cymunedol addas lle nad oes cyllido ar gael o ffynonellau eraill. Bydd y gronfa'n weithredol i gychwyn am gyfnod o 3 mlynedd.

Gall grwpiau cymunedol a gwirfoddol, elusennau cofrestredig a chynghorau tref a chymuned gynnal prosiect. Mae'n rhaid i bob prosiect cael ei leoli o fewn yr ardal adfywio yng Nghonwy o Fochdre/Llandrillo yn Rhos hyd Bae Cinmel.

Grant dewisol yw hwn a bydd y swm a gynigir yn cael ei asesu fesul prosiect. Y swm uchaf sydd ar gael i bob prosiect cyfalaf yw £20,000 gan gynnwys TAW. Bydd yr Ardal Adfywio yn ystyried ariannu 50% o gost y prosiect ond gellir dyfarnu mwy i ymgeiswyr mewn amgylchiadau eithriadol (hyd at uchafswm o 80%).

Ynghyd â'r gronfa yma, mae RWE npower renewables wedi gwneud cyllid ar gael i brosiectau cymunedol sydd am elwa ar draws yr un ardal. Mae gan y gronfa yma uchafswm o £10,000 neu 50%.

Yn y ddau achos isafswm y grant yw £1,000.

Am gopi o'r canllawiau a ffurflen gais yna cysylltwch â CGGC (CVSC) ar 01492 534091 neu e-bostiwch post@cvsc.org.uk.

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:14/12/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk